

---

## PWYLLGOR IAITH 18 HYDREF 2018

---

### Yn bresennol:

**Y Cyngorwyr:** Alan Jones Evans, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Charles Wyn Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric M. Jones, Kevin Morris Jones, Cai Larsen, Eirwyn Williams ac Elfed Wyn Williams.

**Swyddogion:** Gwenllïan Mair Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), ac Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Eraill a wahoddyd:** Y Cyngorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet y Gymraeg, Y Cyngorydd Edgar Wyn Owen (Is Gadeirydd y Cyngor)

Ar gyfer eitem 8: Arwel Williams (Prifysgol Bangor)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. John Pughe Roberts

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 10 Gorffennaf, 2018 fel rhai cywir.

### 5. ADRODDIAD AELOD CABINET Y GYMRAEG

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad gan nodi yn dilyn y Cyngor Llawn fod Cynllun Hybu'r Gymraeg bellach wedi ei fabwysiadu. Mynegwyd fod grant o £2m Arfor wedi ei gyhoeddi gan y Llywodraeth. Ychwanegwyd fod trafodaethau cychwynnol wedi ei gynnal am y cynllun. Ategwyd fod y Gymraeg yn ganolog i'r Cynllun Arfor. Nodwyd fod yr Aelod Cabinet a Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg bellach yn rhan o'r trafodaethau.

Nodwyd fod Cynllun Hunaniaith wedi cael 2 flynedd ychwanegol o gyllid a'u bod yn y broses o greu cynllun ar gyfer 2020/21. Mynegwyd fod y cynllun blaenorol yn cynllun tair blynedd ac fod y dair blynedd bellach yn tynnu at y terfyn. Nodwyd yr angen am gynllun newydd a fydd yn edrych ar brosiectau hir dymor a'i fod yn gyfle i feddwl sut y gall Hunaniaith symud ymlaen.

Sylwadau o'r drafodaeth

- Nodwyd fod cynllun Arfor yn gynllun sydd wedi cael ei drafod ers pum mlynedd a datganwyd hapusrwydd fod grant wedi ei gyhoeddi. Trafodwyd y bydd y Cynllun

TWF ac Arfor yn rhedeg ochor yn ochor, ond na fyddant yn cyd-weithio, a ni ddylid cynllun TWF amharu ar ddeinameg Cynllun Arfor.

- Ychwanegwyd fod cynllun Arfor angen ei ddatblygu a bod angen trafod cynlluniau o fewn y 4 sir y bydd Arfor yn rhan ohoni.
- Mynegwyd gwahaniaethau rhwng cynllun Arfor a TWF gan nodi nad yw diwylliant yn rhan ganolog o gynllun TWF a bod y Gymraeg yn rhan ganolog o Gynllun Arfor.

## 6. RHAGLEN WAITH Y CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod hwn yn gyfle i edrych yn fanylach a chael trafodaeth ar y rhaglen waith. Ychwanegwyd mai rhaglen waith cychwynol yw'r hwn ac y bydd datblygiadau yn cael ei wneud i'r rhaglen unwaith y bydd modd cael yr holl bartneriaid at ei gilydd er mwyn datblygu prosiectau ar y cyd.

Mynegwyd fod 5 maes blaenoriaeth yn y rhaglen waith ac edrychwyd ar bob blaenoriaeth yn unigol.

### a. Iaith y Teulu

Trafodwyd partneriaeth gyda'r Mudiad Meithrin gan nodi fod cydweithio yn digwydd ond fod angen trafodaethau pellach. Ychwanegwyd fod y Mudiad Meithrin yn gwneud newidiadau i'w prosiectau ac o ganlyniad nad oes trafodaethau dwys wedi eu cynnal a'r mudiad.

Nodwyd fod trosglwyddo iaith yn deuluol yn digwydd yn arferol yng Ngwynedd, ond ychwanegwyd fod angen dealltwriaeth o ble mae'r bylchau o ran ardaloedd ble nad yw trosglwyddo iaith yn deuluol mor uchel ag eraill. Holwyd os byddai modd cael data, a mynegwyd efallai y byddai modd cael y data gan yr Adran Addysg. Trafodwyd y wybodaeth sydd yn cael ei gasglu mewn ysgolion a nodwyd fod rhieni yn asesu lefel iaith plant cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol.

Trafodwyd fod plant yn amsugno iaith yn y blynyddoedd cynnar a holwyd os oes appiau ar gael ar gyfer yr oedran yma drwy'r Gymraeg. Ategwyd fod myfyriwr drwy'r Coleg Cymraeg wedi bod yn gwneud ymchwil ar y maes dros gyfnod o 10 diwrnod yn y cyngor, a bod y canlyniad yn dangos fod nifer uchel o appiau yn targedu oedran cynradd a meithrin. Ychwanegwyd fod angen datblygu mwy o appiau ar gyfer oedrannau uwchradd. Mynegwyd fod angen hyrwyddo'r appiau fwy o fewn cymdeithas.

Trafodwyd sut mae modd sicrhau fod staff clybiau brechwast ac ar ôl ysgol yn glynu at y polisi iaith. Mynegwyd fod ymrwymiad ysgolion i'r siarter iaith yn gysylltiedig â'r clybiau. Ychwanegwyd fod GwE wedi gwneud asesiad iaith ar staff o fewn ysgolion. Ategwyd efallai fod angen sicrhau fod y Siarter iaith yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfodydd Llywodraethwyr yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd o glybiau yn ogystal.

### b. Iaith Dysgu

Mynegwyd fod y system addysg yn un sydd yn gweithio o fewn y sir ond nodwyd dau fan gwan. Y cyntaf oedd gostyngiad yn nifer y plant sydd yn siarad Cymraeg iaith gyntaf ym mlwyddyn 6 a 7 a'r ail y lleihad mewn nifer o blant sydd yn astudio pynciau drwy'r Gymraeg. Nodwyd fod y mannau gwan yma yn cael eu hadnabod o Siarter iaith ysgolion Uwchradd. Mynegwyd fod angen diweddariad gan yr adran.

c. Iaith gwaith a Gwasanaeth

Nodwyd fod angen cadw data o faint sydd yn cael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol wrth edrych ar wasanaeth ieuenctid, hamdden a gofal. Nodwyd fod angen cadw golwg ar hyn.

d. Iaith a Chymuned

Trafodwyd iaith a ddefnyddir mewn cyfarfydd Cyngorau Chymuned ac ychwanegwyd fod ychydig o arian ar gael ar gyfer cael cyfieithwyr mewn cyfarfodydd yn y gymuned. Nodwyd fod yr arian ar gael er mwyn dangos gwerth cyfieithwyr ar y pryd.

e. Ymchwil a Thechnoleg

Dim sylwad.

## **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad.

## **7. CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR IAITH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr eitem yn ddilyniant i'r eitem flaenorol. Mynegwyd mai pwrpas yr eitem yw er mwyn cael themâu a meysydd penodol y gall y Pwyllgor edrych arnynt. Tynnwyd sylw at ddatblygu gweithlu gan nodi fod y cynllun ar waith. Ychwanegwyd fod mwy o gyfleodd hyfforddiant.

Nodwyd y byddai modd cael staff Hunaniaeth i ddod i'r Pwyllgor yn aml er mwyn cyflwyno achosion achos o'r prosiectau maent yn rhan ohonynt. Byddai hyn, ychwanegwyd, yn codi ymwybyddiaeth y pwyllgor i'r gwaith mae Hunaniaeth yn ei wneud.

Holwyd beth yw blaenoriaeth rhaglen waith y Pwyllgor. Mynegwyd y byddai'n dda cael dysgu gan eraill sydd yn gweithio ym maes yr iaith Gymraeg. Ategwyd y byddai'n dda edrych be all pobl eraill ei ddysgu gan y Cyngor. Nodwyd fod angen magu perthynas a Phwyllgorau iaith y siroedd cyfagos.

Nodwyd fod angen blaenoriaethu gan bwysleisio fod rhai o'r meysydd a mwy o waith nac eraill. Trafodwyd sgiliau'r gweithlu gan nodi ei bod yn ymarfer da fod y Cyngor yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Holwyd os yw'r polisi yn cynnwys staff sydd yn cael eu contractio, megis gyrwyr tacsis. Mynegwyd nad yw'r polisi yn cynnwys y staff sydd yn cael eu contractio ac efallai fod angen amlygu'r polisi yn y meysydd yma.

## **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad.

## 8. NEWID YMDDYGIAD AC ARFERION IAITH

Cafwyd cyflwyniad Arwel Williams a oedd yn amlinellu ymchwil Newid Ymddygiad a oedd yn ymchwilio i'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Manylwyd ar yr ymchwil a'i fod wedi bod yn canolbwyntio newid ymddygiad ac arferion iaith yn benodol mewn adran y Brifysgol. Manylwyd ar fethodoleg yr ymchwil ac y sut y bu i'r data gael ei gasglu. Ychwanegwyd y bydd y Cyngor yn ail ran yr ymchwil a fydd yn cychwyn yn ystod y misoedd nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr ymchwil yn un diddorol ond fod pob gweithle am fod yn unigryw gan ei fod yn ddibynnol ar nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg yn y swyddfeydd. Ychwanegwyd fod tueddiad os rhywun yn ddi-gymraeg i sgysiau droi i'r Saesneg.
- Mynegwyd fod gwersi i'w dysgu ar gyfer lleoliadau eraill o gam cyntaf yr ymchwiliad.
- Nodwyd diddordeb i weld beth fydd canlyniadau'r ail ran o'r ymchwil gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.
- Trafodwyd beth yw effeithiau hir dymor y cynllun ond nodwyd nad oes dadansoddiad llawn o'r data wedi ei wneud ac y bydd yr Adran Seicoleg yn rhan o'r gwaith i ddadansoddi'r data.

## 9. CWYNIION IAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod un cwyn wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod sef holiadur aelwydydd. Ychwanegwyd fod yr holiadur yma heb gael ei anfon allan gan y Cyngor ac wedi ei ryddhau yn ddjarwybod i'r Cyngor.

Ychwanegwyd fod un ymchwiliad yn mynd rhagddo a bydd mwy o wybodaeth i ddilyn. Trafodwyd trefn gwynion y Comisiynydd iaith, a bod yr adran iaith yn ceisio cyfeirio pethau at y Comisiynydd i ofyn am gymorth os yn methu cydymffurfio a'r gofynion iaith. Cyflwynwyd enghraifft sydd wedi ei gyfeirio at y Comisiynydd sef gwrs lyfrau ar gyfer hyfforddiant mewn maes arbenigon ar gael yn Saesneg yn unig.

Tynnwyd sylw at rai cwynion penodol yn ymwneud a Pholisi Iaith y Cyngor oedd wedi ei derbyn. Yn y maes amgylchedd roedd rhai dogfennau ar gael yn Gymraeg yn unig, roedd hyn o ganlyniad i amserlen dynn o fewn yr adran. Ychwanegwyd pan dderbyniwyd y gwyn roedd y dogfennau Saesneg yn barod i'w cyhoeddi. Tynnwyd sylw os yn chwilio am y Cyngor ar wefan 'Google' mai'r cyfeiriad Saesneg sydd yn cael ei ddangos. Nodwyd fod yr adran yn ceisio cysylltu â Google i edrych ar y mater ac nad yw wedi ei ddatrys eto. Mynegwyd fod cwyn wedi dod o ganlyniad i Amodau Cronfa Benthyciadau Busnes heb ddefnyddio'r Gymraeg, ond yn dilyn y gwyn fod yr adran wedi edrych ar hyn ac wedi creu amodau newydd. Ychwanegwyd fod cwyn o ganlyniad i ddim taflenni Cymraeg ar gyfer Cymunedau dros Waith, ond roedd y lleoliad penodol wedi gorffen eu cyflenwad o daflenni Cymraeg ac felly bu iddynt dderbyn mwy gan yr adran berthnasol.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

**10. MESUR O LWYDDIANT: CRYNODEB O ADRODDIAD SICRWYDD COMISIYNYDD Y GYMRAEG 2017/18**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai atodiad munud olaf oedd y crynodeb. Mynegwyd fod yr adroddiad yn nodi canlyniadau'r flwyddyn. Nodwyd fod angen dadansoddiad Gwynedd yn benodol a bydd angen ail ymweld â'r eitem yn y cyfarfod nesaf.

**CADEIRYDD**